

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn  
**Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstey, Rhuthun, nos Lun, 12 Tachwedd 2018 am 7:30p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts ac Emrys Wynne.

**45. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd Dave Snape.

**46. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**47. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS**

Darparodd y Cyngorydd Gavin Harris ddiweddariad i aelodau'r Pwyllgor Amwynderau a'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ynghylch y datblygiadau diweddaraf, yn cynnwys trafodaeth ddechreuol gyda HSBC i gael morgais i brynu'r adeilad. Rhannwyd dyfynbrisiau gan dri chwmni gyda'r aelodau mewn ymateb i gais i gwblhau arolwg o'r adeilad yn unol ag amserlen gaeth iawn.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y ffi a gynigiwyd gan Hodkinson Mallinson Ltd, Syrfeiwyr Adeiladau Siartredig am £1,200.00 + TAW a derbyn yr adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 26 Tachwedd.*

**48. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018 yn gywir.*

**49. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**50. CYFLWYNIAD AR DORRI GLASWELLT ER BUDD BIOAMRYWIAETH YN SIR DDINBYCH**

Croesawodd y Cadeirydd Joel Walley, Swyddog Ecoleg gyda Chyngor Sir Ddinbych, i'r cyfarfod. Esboniodd weledigaeth y Cyngor Sir ar gyfer rheoli glaswellt ar fin y ffordd yn y dyfodol i gyd-fynd gyda statws Cyfeillgar i Wenyn yr awdurdod. Eglurodd bod Cynllun Bioamrywiaeth drafft yn cael ei lunio ac roedd yn awyddus i gael blodau gwyllt cynhenid, lliwgar, yn tyfu ledled y sir. Cyfeiriodd yr aelodau at y blodau gwyllt a blannwyd yng Nghanolfan Grefft Rhuthun, a phwysleiswyd ei bod yn bwysig iawn cynnal a chadw'r safleoedd hyn neu gallent edrych yn flêr ac yn hyll.

**PENDERFYNWYD:** *diolch i Mr Walley am ei gyflwyniad a chysylltu gydag ef eto i drafod yr ardaloedd torri glaswellt wrth fin y ffordd yn Rhuthun i gyd-fynd gyda'r cynllun meistr cyn dyfarnu'r cytundeb torri glaswellt y flwyddyn nesaf.*

**51. GOLEUADAU LED AR GOED NADOLIG 2018**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbris am oleuadau Nadolig LED ar bum coeden Nadolig yn Rhuthun gan Aerial Electrics Ltd ar bris o £3,458.00 + TAW.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y dyfynbris gan Aerial Electrics Ltd am £3,458.00 + TAW.*

**52. GWAHODDIAD I GYMRYD RHAN MEWN GŴYL COED NADOLIG**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwahoddiad i gymryd rhan mewn Gŵyl Coed Nadolig a drefnir gan Ardal Genhadol Dyffryn Clwyd, i'w chynnal yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun, 7 – 10 Rhagfyr 2018. Roedd yr aelodau'n awyddus i gymryd rhan, a chynigiodd y Cyngorydd Emrys Wynne goeden Nadolig artiffisial 7 troedfedd i'w defnyddio yn yr arddangosfa.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y gwahoddiad i gymryd rhan ac y gallai'r Cyngorwyr a oedd yn dymuno gwneud hynny roi cyfraniad o £1 tuag at Hosbis Sant Cyndeyrn.*

**53. COED AR SGWÂR SANT PEDR**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbris diwygiedig gan Wasanaethau Coed Cymru ynghylch

gwaithocio'r coed ar Sgwâr Sant Pedr am bris o £325.00 a £50.00 i dynnu'r hen oleuadau oddi ar y coed + TAW.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y dyfynbris diwygiedig a bwrw ymlaen gyda'r gwaith.*

#### **54. CYNLLUN PLANNU COED**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynllun plannu coed yn y dref i ddynodi'r cysylltiadau gwyrdd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Gavin Harris at y coed wrth y fynedfa i Gae Ddôl ac awgrymodd y posibilrwydd o gael yr un coed yn Rhesdai'r Rheilffordd, y fynedfa i'r llwybr troed ger Glasdir ar Ffordd Ddinbych a'r cysylltiadau gyda'r llwybrau cerdded ar Heol y Parc, y gellir eu noddi gan fusnesau a chymdeithasau lleol.

**PENDERFYNWYD:** *cael dyfynbrisiau ac ystyried hyn ymhellach unwaith bod prisiau wedi dod i law.*

#### **55. CYHOEDDIAD 'WELCOME TO DENBIGHSHIRE & FLINTSHIRE'**

Dangosodd y Clerc gopi o'r cyhoeddiad ar gyfer Conwy gan gwmni Kingfisher Visitor Guides, a oedd yn bwriadu cyhoeddi llyfryn tebyg ynghylch Sir Ddinbych a Sir y Fflint ym mis Mawrth 2019 ac wedi gofyn a fyddai gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn hysbysebu.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r wybodaeth.*

#### **56. GRŴP TREF TACLUS**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Gavin Harris y cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp ddydd Sadwrn, 17 Tachwedd am 11 o'r gloch y bore, ac y byddai'r cyfarfod dilynol fore Llun, 10 Rhagfyr am 10 o'r gloch y bore.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r wybodaeth.*

#### **57. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 3 Rhagfyr 2018 am 7:30pm.*